OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif 771 (Cy. 139)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gyfnewidfa Aberdulais, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2025

Gwnaed	*23 Mehefin 2025*
Yn dod i rym	*1 Gorffennaf 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gyfnewidfa Aberdulais, Castell-nedd Porth Talbot) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 1 Gorffennaf 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A465 Llandarcy i'r Fenni;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Cymhwyso

6. Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Mehefin 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN
Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd (gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Aberdulais) sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Aberdulais hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Resolfen.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Resolfen hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Cwm-gwrach.

3. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Cwm-gwrach hyd at ei chyffordd â thrwyniad ffisegol ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyfnewidfa Glyn-nedd.

4. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â thrwyniad ffisegol ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyfnewidfa Glyn-nedd hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan y Rhigos.

5. Y darnau cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin a'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

6. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Resolfen hyd at drwyniad ffisegol ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyfnewidfa Aberdulais.

7. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Cwm-gwrach hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Resolfen.

8. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â thrwyniad ffisegol y brif gerbytffordd tua'r gorllewin hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Cwm-gwrach.

9. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol pont Seidins Pwll Glo'r Tower yr A465 gyda'r rhif adnabod '370' a leolir i'r gorllewin o Gyffordd Trewaun yn y Rhigos hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

10. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol pont Seidins Pwll Glo'r Tower yr A465 gyda'r rhif adnabod '370' a leolir i'r gorllewin o Gyffordd Trewaun yn y Rhigos.